DEDDF GWEINYDDIAETH ETHOLIADOL 2006

Adolygiad o Ddosbarthiadau Etholiadol a Mannau Pleidleisio (Etholiadau Seneddol) 2006

Drwy hyn rwy'n rhoi rhybudd y cynhelir adolygiad, a fydd yn dechrau ar ddyddiad yr hysbysiad hwn, yn unol ag Adran 18C (1) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl, fel y mewnosodwyd gan Adran 16 Deddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006.

Mae'n rhaid i unrhyw unigolyn neu sefydliad sydd yn dymuno gwneud sylwadau mewn perthynas â'r trefniadau o ddosbarthiadau etholiadol a mannau pleidleisio o fewn ffin Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; neu'n ymwneud ag hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio, ysgrifennu at:

Tîm Craffu
Adran Cwsmer a Llywodraethu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1NF

E-bost: pleidleisio@wrexham.gov.uk

Y dyddiad cau i dderbyn sylwadau gan y cyhoedd am yr Adolygiad yw dydd Gwener, 11 Hydref 2019. Bydd yr Adolygiad yn gofyn bod sylwadau yn cael eu gwneud gan y Swyddog Canlyniadau Gweithredol ar gyfer Etholaeth Wrecsam, a rhan o Etholaeth De Clwyd o fewn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn www.wrexham.gov.uk ac i'w gweld yn y Neuadd Y Dref, Wrecsam, LL11 1NF.

Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau ar unrhyw un o'r cynigion a nodir gan argymhellion Swyddog Canlyniadau Etholiadol yw 28 Hydref 2019. Bydd y Cyngor wedyn yn ystyried argymhellion y Swyddogion Canlyniadau Gweithredol ynghyd ag unrhyw sylwadau eraill a wnaethpwyd.

Bydd unrhyw sylwadau, gohebiaeth, cofnodion a phenderfyniadau sydd yn berthnasol i'r adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor fel y bydd yr adolygiad yn mynd yn ei flaen. Bwriedir i'r Cyngor gyhoeddi ei gynigion terfynol ym mis Rhagfyr 2019.

9 Medi 2019